Ymddiriedolaeth
Ddiwylliannol
Cultural Trust

Amlinelliad o'r Swydd

Teitl y Swydd:
Cynorthwyydd Digwyddiadau
Profiad y Cwsmer Achlysurol

Sail
Yn ôl yr angen

Cyflog:
£12.71 yr awr

Sylfaen:
Y Met

Atebol i:
Rheolwr Cyffredinol

Yn atebol am:
Amherthnasol

Eich Rôl:
Mae hwn yn gyfle cyffrous i weithio o flaen tŷ mewn lleoliad diwylliannol bywiog sy'n darparu gwasanaeth o'r radd flaenaf i gwsmeriaid trwy gydol eu hymweliad,

Gan gynnal y safonau uchaf o ofal cwsmeriaid, byddwch yn ymgymryd ag amrywiaeth o ddyletswyddau i sicrhau mwynhad a diogelwch cwsmeriaid. Bydd hyn yn cynnwys gweithio yn y bar/caffi/ciosg; stiwardio digwyddiadau; gwerthu tocynnau/nwyddau; sefydlu digwyddiadau; a chynorthwyo cwsmeriaid yn gyffredinol trwy gydol eu hymweliad.

Yn y rôl byddwch yn:

- Dangos y safonau uchaf o groeso a gofal wrth gynorthwyo cwsmeriaid ledled y lleoliad gyda'r holl anghenion gwasanaeth a gwerthu.
- Cefnogi yr holl fannau gwasanaeth sefydlog a dros dro sy'n gwerthu tocynnau, eitemau bwyd a diod, nwyddau, hufen iâ a melysion yn ôl yr angen. Annog gwerthiannau wrth sicrhau bod cofnodion stoc diwedd shifft cywir yn cael eu prosesu a bod yr holl fannau gwasanaeth yn cael eu hailstocio'n llawn gan gynnwys symud stoc.
- Bod yn gyfrifol am gymryd taliadau yn gywir a bod yn wyliadwrus am arian parod/cardiau credyd twyllodrus ac ati. Cefnogi Rheolwyr y Theatr gyda'r holl weithdrefnau arian parod a chadw cofnodion.
- Sicrhau bod yr holl brosesau ar gyfer gwerthu tocynnau yn cael eu cwblhau'n gywir ac yn effeithlon
- Ymgysylltu â mentrau gwerthu a chymryd rhan ynddynt. Sicrhau gwybodaeth dda am ddiodydd, cynhyrchion, digwyddiadau a gwasanaethau yn y dyfodol sydd ar gael.
- Bod yn rhagweithiol a sicrhau amgylchedd gwaith glân, hylendid a safon uchel ac edrych yn drwsiadus, yn drefnus a phrydlon.
- Cefnogi'r gwaith o osod digwyddiadau, gan gynnwys symud offer, yn ogystal ag ailosod a chlirio yn ôl yr angen.
- Sicrhau bod ein polisi Mynediad yn cael ei hyrwyddo a'i ddathlu ledled y lleoliad a darparu gwasanaeth rhagorol i'n defnyddwyr Mynediad.
- Bod yn hyderus, cydweithredol gydag agwedd gadarnhaol, bob amser yn ymdrechu i wella'n barhaus, a gweithio er budd gorau'r tîm a'r lleoliad, bob amser.
- Creu amgylchedd gwaith cadarnhaol, wedi'i ategu gan werthoedd y sefydliad.
- Cefnogi Gweithdrefnau Gwacáu Tân ac Argyfwng gan sicrhau bod rhagofalon safonol yn cael eu cymryd i amddiffyn rhag peryglon tân a diogelwch.

Dyletswyddau a Chyfrifoldebau Cyffredinol:

- Bod yn gyfrifol am eich diogelwch eich hun a diogelwch staff eraill ac unrhyw aelod o'r cyhoedd a allai gael eu heffeithio gan eich gweithredoedd a'ch anweithredoedd yn y gwaith.
- Cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau hyfforddi a datblygu i gynnal eich datblygiad eich hun neu i wella cymhwysedd o fewn rôl swydd.
- Cynnal ac integreiddio ein pwrpas a'n gwerthoedd ym mhopeth rydych chi'n ei wneud, gan arsylwi a hyrwyddo pedwar gwerth Awen bob amser – Creadigol, Grymuso, Cydweithredol a Theg.
- Sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu cwblhau yn unol ag ymrwymiad Awen i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac yn unol ag arfer gorau a deddfwriaeth
- Herio'n weithredol wahaniaethu a stigma yn y gweithle.
- Bod yn gyfrifol am ddiogelu a hyrwyddo lles plant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl
- Gofalu am eich lles corfforol a seicolegol eich hun lle bynnag y bo modd.
- Cefnogi lles seicolegol a chorfforol ein cydweithwyr/tîm ac annog diwylliant empathig a chynhwysol.
- Bod yn gyfrifol wrth ein helpu i gyflawni ein huchelgais cynaliadwyedd trwy gyfrannu at leihau eich ôl troed carbon unigol a gweithio tuag at yr amcanion sefydliadol yn unol â strategaeth cynaliadwyedd Awen.
- Cydymffurfio â pholisïau Awen a Gweithdrefnau
- *Nid yw hwn yn ddatganiad cyflawn o'r holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau y swydd hon, ac efallai y bydd yn rhaid eu hamrywio wrth i anghenion y busnes newid.*

Manyleb y Person

Y Person (NODIR MEINI PRAWF HANFODOL FEL **(H):**

- Yn arwain trwy esiampl, yn drwsiadus iawn, yn broffesiynol gydag agwedd gadarnhaol (H)
- Cyfeillgar, a hawddgar, yn mwynhau gweithio fel rhan o dîm a rhannu arfer gorau (H)
- Gallu profedig i ddarparu profiad cwsmer rhagorol mewn amgylchedd gwasanaethau cwsmeriaid prysur. (H)
- Ymrwymiad i ddatblygiad personol
- Croesawu a chofleidio newid gydag agwedd gadarnhaol (H)
- Addasadwy a hyblyg i fodloni gofynion (H)
- Mwynhau creu perthynas bersonol â chwsmeriaid. (H)
- Parodrwydd i weithio patrymau shifft hyblyg (H)
- Diddordeb a brwdfrydedd dros Gerddoriaeth Fyw, Theatr a'r Celfyddydau (H)

Cymwysterau, sgiliau, galluoedd a phrofiad:

(NODIR MEINI PRAWF HANFODOL FEL **(H):**

- Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig da (H)
- Sgiliau trefnu rhagorol (H)
- Y gallu i feddwl ar eich traed a gwneud penderfyniadau effeithiol wrth weithio mewn amgylchedd prysur (H)
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol gan gynnwys gwrando gweithredol (H)
- Y gallu i weithio heb oruchwyliaeth mewn amgylchedd prysur sy'n dangos agwedd hyderus a hunan-gymhellol (H)
- Profiad o drin arian parod, trafodiadau cardiau credyd a gweithio til. (H)
- Profiad o weithio mewn bariau a manwerthu, yn ddelfrydol mewn amgylchedd celfyddydol / Cerddoriaeth Fyw. (H)
- Cymhwyster Hylendid Bwyd Sylfaenol.
- Y gallu i godi a chario offer a stoc.
- NVQ mewn Gwasanaeth Cwsmeriaid neu'n gallu dangos hyfedredd trwy brofiad
- Gwybodaeth a phrofiad ymarferol o gydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol ac arfer gorau y diwydiant
- Y gallu i siarad Cymraeg
- Gwybodaeth am arferion gweithio diogel a hylendid bwyd
- Cyfrannu syniadau ac atebion ac yn gallu eu cymhwyso er mwyn gwella.
- Y gallu i aros yn effro mewn sefyllfaoedd dan bwysau